Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Pendalar**
**Ffordd Bethel**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 1DU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Pendalar yn nhref Caernarfon a chaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae'n ysgol ddydd arbennig, naturiol ddwyieithog, ar gyfer disgyblion rhwng tair a 19 mlwydd oed.

Mae gan Pendalar un dosbarth cyfnod allweddol 2 wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd Bontnewydd ar gyfer disgyblion llai anghenus.

Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ardaloedd gogledd Gwynedd, gydag ychydig iawn yn dod o awdurdodau lleol cyfagos.

Adeg yr arolygiad, roedd 87 o ddisgyblion - 57 bachgen a 30 merch - ar gofrestr yr ysgol.

Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae ganddynt sbectrwm eang o anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau mae dysgwyr yn eu cyflawni â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau perfformiad grwpiau dros amser oherwydd natur anghenion y disgyblion.

Mae ychydig dros hanner y disgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Dim ond ychydig iawn o'r disgyblion sydd yn dod o gartrefi lle nad Cymraeg na Saesneg yw'r iaith gyntaf a daw'r gweddill o gartrefi Saesneg eu hiaith. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd yn dod o gefndiroedd ethnig.

Mae gan 37% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim ac mae ychydig iawn o ddisgyblion dan ofal yr awdurdod lleol.

Mae'r ysgol yn cynnig nifer o gyfleusterau arbenigol gan gynnwys pwll hydrotherapi, amgylchedd dysgu y tu allan ac ardaloedd synhwyraidd.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gyfrifol am ddarparu ffisiotherapi, therapi lleferydd, therapi galwedigaethol, nyrsio dyddiol a chynorthwyon gofal iechyd o fewn yr ysgol.

Nod yr ysgol yw datblygu pob disgybl i'w botensial llawn yn addysgol ac yn gymdeithasol fel y gall chwarae rhan lawn yn ei gymdeithas a bod yn aelod gwerthfawr ohoni.

Symudodd yr ysgol i adeilad newydd pwrpasol ym mis Medi 2007. Mae'r ysgol wedi'i lleoli'n gyfleus ar yr un safle â'r ganolfan hamdden ac yn agos i ysgol gynradd ac ysgol uwchradd.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Hydref 2007. Mae'r pennaeth a'r dirprwy dros dro wedi bod yn eu swyddi ers mis Ebrill 2013.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae Ysgol Pendalar yn ysgol dda oherwydd:

- mae safonau yn dda ar draws yr ysgol;
- mae gallu'r disgyblion i ddatblygu medrau cyfathrebu dros amser yn dda iawn;
- mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau sy'n atgyfnerthu ac yn ysgogi'r dysgu;
- mae'r addysgu o safon dda yn yr holl ddosbarthiadau;
- mae yna ethos gofalgar sy'n sicrhau bod disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel; ac
- mae'r cydweithio effeithiol rhwng yr holl staff yn cyfoethogi lles a phrofiadau dysgu'r disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae gan y pennaeth a benodwyd yn ddiweddar weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol ymhellach i'r dyfodol;
- mae'r uwch dîm rheoli, staff a'r llywodraethwyr yn rhannu'r un weledigaeth;
- mae'r ysgol wedi llwyddo i greu cyfundrefnau effeithiol ar gyfer symud yr ysgol ymlaen o fewn byr amser;
- mae'r ysgol wedi adnabod agweddau penodol i'w datblygu i'r dyfodol sydd ar waith yn barod; ac
- mae newid cadarnhaol sylweddol wedi bod i reolaeth strategol yr ysgol yn ystod yr hanner tymor diwethaf.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod strategaethau asesu ar gyfer dysgu a medrau meddwl yn treiddio trwy'r ysgol

A2 Datblygu'r gweithdrefnau arweinyddiaeth strategol a luniwyd yn ddiweddar a rôl y corff llywodraethol yn y broses hunanarfarnu, gosod blaenoriaethau a herio'r ysgol

A3 Sicrhau bod cyswllt agos rhwng hyfforddiant staff, y drefn rheoli perfformiad, yr adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da, dros amser, mewn perthynas â'u gallu, oedran ac anghenion unigol. Maent yn gwneud cynnydd da tuag at dargedau eu cynlluniau addysg unigol.

Mae canlyniadau ASDAN (Award Scheme Development and Accreditation Award) yn dangos bod disgyblion 14 i 19 mlwydd oed yn gwneud cynnydd da.

Mae disgyblion o wahanol grwpiau yn cyflawni yn dda yn erbyn eu targedau. Nid oes yna wahaniaeth sylweddol rhwng cyflawniadau bechgyn a merched, disgyblion sydd yn cael prydau am ddim a'r rheini sydd yng ngofal yr awdurdod lleol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau, ac yn cydnabod eu cynnydd o fewn eu targedau.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion sydd ag anghenion dwys a chymhleth yn gwneud cynnydd mesuradwy tuag at gwrdd â'u targedau personol. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau synhwyraidd pwrpasol i wybod beth sy'n digwydd nesaf, er enghraifft drwy gyffyrddiad defnydd penodol wrth ymweld â'r ystafell dywyll. Maent yn defnyddio symbolau a'u synhwyrau yn dda i wneud dewisiadau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi. Maent yn ymddwyn ac yn gwrando'n dda. Maent yn gallu dwyn i gof waith blaenorol ac yn llwyddo i gydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Mae bron pob un hefyd yn aros ar dasg yn dda ac yn mwynhau'r gwersi.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n dda iawn. Mae'r disgyblion llai galluog yn defnyddio symbolau yn effeithiol i gyfathrebu a mynegi eu hunain i eraill. Mae'r disgyblion mwy abl yn gallu cyfathrebu ar lafar yn dda iawn a phan yn addas yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau darllen ac ysgrifennu.

Mae disgyblion yn datblygu medrau rhifedd da. Maent yn gallu defnyddio'r medrau'n briodol mewn amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft trwy drin arian wrth siopa a mesur a phwyso wrth baratoi bwyd.

Mae disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ehangu eu dysgu, cyflwyno eu gwaith a gwella eu medrau cyfathrebu. Mae disgyblion gydag anghenion mwy cymhleth yn gwneud defnydd cynyddol ac effeithiol o adnoddau technolegol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio switshis, er enghraifft i reoli offer yn yr ystafell synhwyrau ac offer mewn gwers goginio.

Mae disgyblion mwy abl yn ymateb yn dda i dasgau datrys problemau syml. Maent yn gallu gweithio'n annibynnol ac, ar brydiau, defnyddio medrau meddwl fel rhan o'u tasgau. Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn gwneud penderfyniadau pwysig, er

enghraifft, gwella adnoddau yn y parc chwarae. Maent hefyd wedi costio'r adnoddau hyn a thrafod syniadau ar sut i godi arian.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn unol â'u gallu, yn dangos dealltwriaeth dda o'r Gymraeg a'r Saesneg ac yn eu defnyddio yn effeithiol mewn sefyllfaoedd amrywiol. Mae gallu'r disgyblion ail iaith i feistroli'r Gymraeg yn datblygu'n arbennig o dda.

Trwy'r amrywiol gyfleoedd a gaiff y disgyblion i fynychu ysgolion a cholegau lleol, yn ogystal â phrofiad o fyd gwaith, maent i gyd yn llwyddo i symud ymlaen i gyrsiau coleg addysg, darpariaeth gwasanaeth dyddiol neu waith.

Mae'r holl ddisgyblion dros y ddwy flynedd diwethaf wedi ennill cymhwyster cydnabyddedig erbyn iddynt adael yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at fyw a bwyta'n iach ac yn cymryd rhan mewn ystod eang o ymarferion corfforol. Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau dod i'r ysgol.

Mae llawer yn cyfrannu'n llawn gydag awch a brwdfrydedd yn y gweithgareddau. Mae bron pob un yn canolbwyntio yn dda am gyfnodau sylweddol yn unol â'u gallu. Maent hefyd yn dangos safon uchel o barch a chwrteisi at eraill ar draws yr ysgol a thu hwnt.

Mae'r disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am nifer o agweddau megis gwerthu ffrwythau yn yr ysgol neu helpu yn siop elusen yr ysgol yn y dref. Mae medrau bywyd a medrau annibyniaeth y disgyblion yn datblygu'n effeithiol trwy'r gweithgareddau hyn ynghyd â thrwy siopa a thrin arian.

Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio'r profiadau galwedigaethol a'r medrau allweddol sydd yn gysylltiedig â hwy yn effeithiol mewn gweithgareddau addysg, byd gwaith a bywyd y tu allan i'r ysgol.

Trwy weithrediad effeithiol y cyngor ysgol, rhoddir llais i'r holl ddisgyblion. Maent wedi adolygu a newid trefniadau yn ystod amseroedd cinio yn ogystal â sefydlu system 'bydis buarth' ar gyfer y disgyblion iau.

Mae ymddygiad y disgyblion yn dda ar draws yr ysgol a thu hwnt. Mae eu presenoldeb yn dda gan ystyried anghenion cymhleth a dwys rhai ohonynt.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu, sydd wedi'u cynllunio dda er mwyn cwrdd ag anghenion unigol y disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau tu allan i'r ysgol, er enghraifft ymweliadau i gaffi, nofio yn y ganolfan hamdden leol, marchogaeth ac ymweliadau i ysgol y goedwig.

Mae'r defnydd mae'r ysgol yn ei wneud o gerdd a chelf i helpu unigolion i ddatblygu teimladau ac i fynegi eu hunain yn un o gryfderau'r ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i'r disgyblion astudio gwaith artistiaid megis Kyffin Williams a Picasso.

Mae staff ar draws yr ysgol yn darparu cyfleoedd helaeth i'r plant ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion unigol ddatblygu eu medrau cyfathrebu, yn unol â'u gallu, yn gryfder.

Mae darpariaeth yr ysgol yn sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i'r disgyblion allu datblygu'n naturiol ddwyieithog dros amser.

Mae'r disgyblion hŷn yn cael cyfle i ennill cymwysterau perthnasol mewn ystod o bynciau. Maent yn cynnwys lefel mynediad CBAC mewn 'Cyflawniad Personol' ac unedau AQA er enghraifft medrau coginio, garddio a thechnoleg gwybodaeth. Maent hefyd yn cael cyfleoedd addas i wneud profiad gwaith, er enghraifft mewn caffi, meithrinfa a siop trin gwallt.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu am gynaliadwyedd yn dda. Mae'r disgyblion yn cael profiadau yn gysylltiedig ag ailgylchu papur a dillad, gwneud compost a thyfu llysiau. Mae'r ysgol wedi ennill gwobr arian 'Eco Ysgolion', a gwobr aur 'Garddio Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru'.

Mae'r disgyblion yn dysgu am ddinasyddiaeth fyd eang trwy ystod lawn o weithgareddau, er enghraifft codi arian ar gyfer ysgol arbennig yn Nhanzania, ymweliad gan athrawes o ysgol ym Mhatagonia ac wythnos 'Masnach Deg'.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae athrawon, cymorthyddion a staff eraill yn cydweithio yn effeithiol i wneud yn siŵr bod y disgyblion yn cael mynediad i bob gweithgaredd gan wneud cynnydd da. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion a gallu bob plentyn. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i gynllunio gwersi a gweithgareddau sy'n addas ac yn heriol.

Fel rhan o broses yr ysgol ar gyfer cynllunio tymor byr, defnyddia staff daflenni pwrpasol sy'n cynnig nodau ac amcanion penodol sy'n gysylltiedig ag anghenion y disgyblion yn effeithiol. Mae'r drefniadaeth hon hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd sesiynau a'r modd gorau o flaengynllunio pellach.

Mae'r staff yn defnyddio ystod eang o ddulliau dysgu ac adnoddau sydd yn hybu diddordeb y disgyblion, yn sicrhau cyflawniadau a datblygu medrau yn unol â'u gallu a'u hanghenion. Mae hyn yn cynnwys defnydd da o offer technolegol, er enghraifft switshis, llechi electroneg a byrddau gwyn rhyngweithiol.

Mae'r holl staff yn sicrhau ffocws penodol ar ddatblygu medrau o fewn y gwersi. Mae ystod lawn o dechnegau cyfathrebu, sy'n cynnwys arwyddo a defnydd o symbolau, yn galluogi'r disgyblion i gyfathrebu yn unol â'u gallu. Mae'r staff hefyd yn manteisio'n llawn ar bob cyfle i ddatblygu annibyniaeth y disgyblion. Fodd bynnag, nid oes ffocws digonol ar ddatblygu medrau meddwl ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o systemau ar gyfer asesu a thracio cynnydd y disgyblion. Mae hyn yn cynnwys defnydd helaeth o dystiolaeth ffotograffig a fideo. Mae hyn yn fodd o ddangos cynnydd mesuradwy y gellir ei rannu â rheini.

Mae'r adborth a roddir i'r disgyblion yn eu galluogi i ddeall y cynnydd maent yn ei wneud a'r modd o'i wella. Fodd bynnag, nid yw strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi treiddio ar draws yr ysgol.

Mae adroddiadau adolygiadau blynyddol ac adroddiadau diwedd blwyddyn yn cynnig gwybodaeth berthnasol i rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol gyfundrefn fugeiliol effeithiol sy'n hyrwyddo iechyd a lles ei disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn cynllunio yn fwriadus ar gyfer hybu cadw'n iach. Mae hyn yn cynnwys cynnig cyfleoedd i'r disgyblion ddosbarthu ffrwythau yn ddyddiol, tyfu a blasu llysiau, gwneud defnydd o'r pwll hydrotherapi a mynychu sesiynau coginio, dringo a beicio.

Ceir ystod eang o weithgareddau sy'n ychwanegu'n effeithiol at brofiadau'r disgyblion ac mae'r cyfnod boreol yn sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n syth i sefyllfa'r ysgol.

Darperir rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol bwrpasol sy'n rhoi pwyslais priodol ar wahanol agweddau megis addysg rhyw a pherthnasedd, iechyd, diogelwch, hylendid a chadw'n iach.

Mae'r gwasanaethau arbenigol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm o gwmpas y plentyn i sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf priodol ar gyfer pob disgybl. Sicrha hyn hefyd gefnogaeth ac arweiniad o safon uchel i'r staff, y disgyblion a'u teuluoedd. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gydag asiantaethau allanol megis Gyrfa Cymru, swyddog cyswllt yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol a meddygol. Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni yn llawn o fewn eu prosesau. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd da a gwneir defnydd effeithiol iawn ohonynt ar draws yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae ymddygiad y disgyblion yn dystiolaeth o effeithiolrwydd y ddarpariaeth hon. Mae gan yr ysgol strategaethau yn eu lle i ymateb yn brydlon i unrhyw achosion o gamymddwyn neu fwlio. Er bod yr ysgol yn casglu gwybodaeth berthnasol am ymddygiad unigolion, nid yw'r broses o ddadansoddi'r wybodaeth wedi ei ffurfioli yn ddigonol.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn cwrdd â'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cefnogol a chynhwysol lle caiff pob disgybl hawl gyfartal i holl ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r awyrgylch hapus a diogel a geir yn seiliedig ar barch a chydweithio agos rhwng staff a disgyblion. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiant y disgyblion yn unol â'r arwyddair 'Llwyddo gyda'n gilydd'. Mae hyn yn helpu'r disgyblion i ddod yn hyderus ac i ymateb yn gadarnhaol i'w gwaith o fewn yr ysgol.

Mae'r amgylchedd dysgu yn dda ac yn cynnal a chefnogi'r addysgu a'r dysgu. Mae gan yr ysgol ystod helaeth o adnoddau pwrpasol ar gyfer ymateb i anghenion unigol y disgyblion a gofynion y cwricwlwm. Mae arddangosfeydd symbylol ar furiau'r ysgol yn clodfori gwaith y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ardal allanol, sy'n cynnwys gardd goffa, ardal tyfu llysiau a mannau chwarae, wedi ei datblygu'n bwrpasol ac maent yn ddiogel a braf. Ceir ystafelloedd newid glân a phriodol a chaiff holl adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n raenus iawn.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth, sy'n newydd i'w swydd ers hanner tymor, yn rhoi arweiniad clir i fywyd a gwaith yr ysgol. Llwyddodd mewn byr amser i rannu ei weledigaeth yn effeithiol gyda'r uwch dîm rheoli, y staff a'r llywodraethwyr. Mae strategaethau cadarn wedi eu creu ar gyfer datblygu'r ysgol i'r dyfodol.

Mae'r uwch dîm rheoli a sefydlwyd yn ddiweddar wedi dechrau ar y dasg o weithredu rhai o'r strategaethau ond prin fu'r amser er mwyn dangos llawn effaith hyn. Mae pob aelod o staff bellach â swydd ddisgrifiad cyfredol. Maent yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau ac yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd i greu tîm effeithiol. Yn ddiweddar, sicrhawyd fod gan y staff cyfan ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r strategaethau sydd wedi eu gosod yn eu lle. Hefyd, mae trefniadau bellach i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus trwy gynnig cyfleoedd rheolaidd o hyfforddiant perthnasol fydd yn gysylltiedig â chynllun datblygu'r ysgol. Yn ddiweddar, sicrhawyd fod gan yr ysgol ystod eang o weithdrefnau priodol sydd bellach ar waith ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad y disgyblion ac ar fywyd yr ysgol yn gyffredinol. Er bod yr uwch dîm rheoli wedi cydweithio gyda'r pennaeth i greu strategaethau ar gyfer gwelliant a bod y staff cyfan yn gweithio'n effeithiol fel tîm, nid oes digon o amser wedi bod er mwyn gallu mesur llawn effaith hyn hyd yma.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn awyddus i gydweithio gyda'r tîm rheoli newydd er mwyn datblygu'r ysgol i'r dyfodol. Trwy'r datblygiadau rheolaethol diweddaraf, mae ganddynt bellach wybodaeth dda ynglŷn â'r ysgol. Er eu bod yn ymwybodol o sefyllfa'r ysgol ac o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu, maent yn cydnabod bod angen iddynt ehangu eu rôl. Nid ydynt ar hyn o bryd yn herio'r ysgol yn ddigonol.

Mae camau cadarnhaol wedi eu cymryd i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol, yn arbennig trwy ymrwymo i nifer o rwydweithiau arfer broffesiynol. Yn lleol, mae'r ysgol

wedi ymrwymo i gynlluniau strategol yr awdurdod lleol ar gyfer trawsnewid y gwasanaeth Anghenion Addysgol Arbennig yng Ngwynedd.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Hyd yn ddiweddar, nid oedd gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu digon trylwyr ar gyfer arfarnu ei pherfformiad ei hun. Mae'r ysgol erbyn hyn wedi creu trefn effeithiol ar gyfer casglu tystiolaeth berthnasol ar gyfer yr hunan arfarnu i'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gwybodaeth am gyflawniad disgyblion a pherfformiad yr ysgol, tueddiadau mewn data a monitro ar wahanol agweddau ar waith yr ysgol. O fewn cyfarfodydd staff, trafodir deilliannau'r hunanarfarnu. Er nad yw'r drefn hunanarfarnu yn llawn weithredol drwy'r ysgol hyd yma, llwyddwyd i ddefnyddio amrediad addas o dystiolaeth uniongyrchol yn y tymor byr ar gyfer creu'r adroddiad hunanarfarnu diweddaraf. Mae'r adroddiad ar y cyfan yn gynhwysfawr ac yn rhoi darlun gonest ac arfarnol o sefyllfa gyfredol yr ysgol.

Er i'r arweinwyr gynnal cyfarfodydd ar gyfer egluro'r drefn a chodi ymwybyddiaeth o rôl pawb o fewn y broses, megis dechrau bod yn rhan o'r broses mae mwyafrif o staff yr ysgol.

Nid oedd y cyswllt rhwng yr hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol yn eglur iawn yn y gorffennol ac felly nid oedd cynllun datblygu blaenorol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol yn llawn. Mae'r pennaeth newydd, mewn cydweithrediad â'r uwch dîm rheoli, wedi creu cynllun gweithredu ar sail hunanarfarniad diweddaraf sy'n disodli'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr elfennau ddaeth i'r amlwg trwy'r hunanarfarnu ac yn nodi'r camau gweithredu angenrheidiol ac arfarniad o'r cynnydd. Mae hwn yn arf effeithiol i sicrhau newidiadau hanfodol yn y tymor byr.

Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad y staff addysgu ac wedi cynllunio ar gyfer ymestyn hyn i gynnwys y staff cefnogi i'r dyfodol. Nid oes cysylltiad digon agos ar hyn o bryd rhwng yr hyfforddiant a chyfrifoldebau staff a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r ysgol yn ddiweddar wedi dechrau datblygu rhwydweithio mewnol, sydd wedi llwyddo i greu tîm o staff sy'n cydweithio'n effeithiol. Dechreuwyd hefyd ar y drefn o ymweld â sefydliadau eraill er mwyn rhannu arferion da. Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i'r rhan fwyaf o argymhellion yr adroddiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r cysylltiadau gyda rhieni a'r gymuned leol yn dda. Mae bron pob rhiant yn dweud eu bod yn derbyn gwybodaeth berthnasol gan yr ysgol am gynnydd eu plant ac am y gweithgareddau. Gwneir defnydd effeithiol o fudiadau a chyflogwyr lleol i gynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion o fewn y byd gwaith.

Mae'r ysgol wedi sefydlu strwythur effeithiol gyda nifer o asiantaethau allanol i adnabod datblygiad pob disgybl. Mae hyn yn cyfrannu yn dda tuag at gynllunio strategol perthnasol a gosod targedau penodol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i'r disgyblion weithio ochr wrth ochr gyda'u cyfoedion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd lleol. Mae disgyblion Pendalar a

disgyblion y cyfnod sylfaen mewn ysgol gynradd gyfagos yn ymweld â'i gilydd yn wythnosol i gydweithio a rhannu profiadau.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos gydag ysgolion arbennig eraill, ac mae trefniadau diweddar yn eu lle i gydweithio â hwy ar gyfer sicrhau ansawdd asesu gwaith a darpariaeth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ystod dda o athrawon arbenigol profiadol a chymorthyddion a gaiff eu rheoli'n dda a'u defnyddio'n effeithiol. Mae cyfraniad y cymorthyddion a'r cynorthwyon gofal iechyd a'u gallu i gydweithio ac i gefnogi'r disgyblion yn elfen arbennig o waith yr ysgol. Maent yn effeithiol wrth gefnogi disgyblion unigol, grwpiau o ddisgyblion ac addysgu sesiynau.

Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â gofynion statudol y Cytundeb Cenedlaethol ar 'Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith' (2003).

Mae ystod eang o adnoddau pwrpasol yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol. Maent o ansawdd da a gwneir defnydd effeithiol ohonynt i ddiwallu anghenion, diddordebau a galluoedd y disgyblion. Mae'r gymuned leol yn cynnig cefnogaeth ariannol hael a chyson i gynorthwyo'r ysgol i greu amgylchedd dysgu pwrpasol.

O ystyried y safonau da a gyflawnir gan y disgyblion, ansawdd yr addysgu a'r gynhaliaeth a'r rheolaeth effeithiol o adnoddau, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion**

Cwblhawyd yr holiaduron gan 16 o ddisgyblion. Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn eu haddysgu i gadw'n iach ac i wneud yn dda yn yr ysgol. Teimlant i gyd fod athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent i gyd yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd. Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio ac y gallant siarad â rhywun os oes ganddynt bryder. Mae bron pob un yn teimlo eu bod yn cael digon o gyfleoedd i gael ymarfer corff.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cwblhawyd yr holiadur gan 11 o rieni. Maent i gyd yn fodlon â'r ysgol ac yn dweud bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol. Cred yr holl rieni bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda, bod yr addysgu'n dda, bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da a bod y plant yn cael eu trin yn deg a chyda pharch. Cred yr holl rieni fod eu plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yn ysgol yn helpu eu plentyn ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. Mae pob rhiant o'r farn bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol a bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Cred bron pob un o'r rhieni eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn a'u bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Meinir Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Caroline Rees | Arolygydd Tîm |
| William Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Glyn Roberts | Arolygydd Ychwanegol |
| Donna Roberts | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy’n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg